



Caru Gwenyn  
Bee Friendly



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Astudiaethau achos Grŵp Natur Gwenfô

### Grŵp cymunedol o wirfoddolwyr lleol yw Grŵp Natur Gwenfô.

Rydyn ni'n gofalu am ddôl fawr ac wedi plannu ac yn cynnal pum perllan gymunedol. Mae gennym welyau o ferwr dŵr a llain ar gyfer pryfed peillio.

Tua chwe mlynedd yn ôl, fe ddechreuon ni edrych ar Westai Gwenyn, ar ôl eu gweld mewn parciau yng Ngogledd Ewrop a phenderfynu y dylen ni gael rhai. Bellach, mae 'da ni ddau Westy Gwenyn mawr a thua saith o rai bach.

Ar y pryd, roedd yn syndod cyn lleied o wybodaeth oedd ar gael ym Mhrydain ynghylch dylunio ac adeiladu gwestai gwenyn. Roedd y pwyslais ar rai bach, fyddai ddim wedi para'n hir.

Cwestiynau eitha syml fel hyd delfrydol tiwb bambŵ sy'n ennyn ymatebion lleiaf neu anghyson.

Gan ddilyn esiamplau yn Ewrop, roedd ein strwythurau cyntaf yn cyfuno gwesty gwenyn ar un ochr a hysbysfwrdd ar y llall.

Roedd tô i gadw'r glaw draw. Mae'n bwysig cadw'r nyth yn sych a'i ddiogelu rhag tywydd gwlyb y gaeaf a rhwystro llwydni rhag cydio.



Roedd y gwesty cyntaf yn gyfuniad o foncyffion â thyllau amrywiol eu maint, tiwbiau bambŵ, peithwellt (wedi'u hollti), plociau concrid, brics awyru a chlai crochenydd. Roedd yn wynebu'r de i gael y gorau o'r haul. Denwyd gwenyn mewn fawr o dro.

Daeth yn amlwg o'u gwyllo bod yn well gan y gwenyn y bambŵ ac yna'r boncyffion â thyllau.

Y plocyn concriid oedd y dewis olaf a chafodd y brics awyru eu hanwybyddu.

Roedd y clai'n ddrud i'w brynu ac ni wnaed fawr o ddefnydd ohono. Y rheswm posibl oedd am ei fod yn caledu'n rhy galed i'r gwenyn turio allu tyllu ynddo.

Roedd y tyllau oedd yn llygad yr haul yn fwy llwyddiannus, gyda'r rheini o dan gysgod y to yn cael eu hanwybyddu. Mewn blwyddyn gyffredin, gallech ddisgwyl i ryw 100 o dyllau gael eu defnyddio.

Yr unig broblem oedd ein bod yn gweld tiwbiau bambŵ wedi'u tynnu a'u gollwng ar y llawr. Plant ac oedolion rhy chwilfrydig gafodd y bai (ar gam) i ddechrau.

Fe wnaethon ni nifer o newidiadau i'n hail westy mawr.



Yn lle llawer o fambŵ rhydd, prynon ni westai gwenyn bach oedd â bambŵ ynddyn nhw'n barod, a'u gosod ar y silffoedd. Roedd hynny'n golygu llawer llai o waith. Yn y manau gwag, gosodon ni foncyffion â thyllau a theras o flychau ar gyfer adenydd siderog. Unwaith eto, cawsom wenyw mewn fawr o dro.



Er bod llai o goesau bambŵ unigol, cawsom yr un broblem eto o fambŵ o fewn y gwestai bach yn cael eu tynnu a'u gadael ar lawr.

Gan mai ychydig o bobl oedd yn ymweld â'r gwesty hwn, edrychai'n debyg nad pobl oedd ar fai.

Daethon ni i'r casgliad mai'r brain niferus yn yr ardal oedd ar fai ar ôl iddyn nhw sylweddoli bod llond pen bach blasus ym mhob darn o fambŵ.





Dim ond rhannol lwyddiannus fu'n hymdrechion i'w rhwystro trwy osod weiar netin o gwmpas y gwesty, gan yr oedd y brain diwyd yn gallu tynnu'r bambw trwy'r bylchau yn y netin.

Mae'r broblem yn para ac rydyn ni'n dal i arbrofi â ffyrdd gwahanol o gadw'r tiwbiau bambw'n ddiogel.

Roedd y ddau westy cynta'n fawr ac ymhell o fod yn rhad.

Ers hynny, rydyn ni wedi prynu gwestai gwenyn parod a'u gosod ar bolion.

Maen nhw wedi bod yr un mor llwyddiannus o ran denu gwenyn ac yn llawer iawn rhatach.

Mae gwestai tebyg i'r rhai isod yn costio llai na £15 ar-lein. Cawsom y polion yn rhoddion, felly mae eu gosod a'u symud yn costio'r nesaf peth i ddim.

Gallwch hefyd eu gosod ar hysbysfyrdau sydd heb westai gwenyn ar y cefn.

O'n profiad ni, mae gwestai pryfed neu wenyn yn fanteisiol i wenyn a phicwn unigol pa faint bynnag o arian wariwch chi.

Er hynny, mae'r gwestai mawr yn denu sylw'r cyhoedd ac yn cadw plant yn ddiiddig am oriau.

Mae'n bwysig darparu tyllau o bob maint er mwyn denu pryfed bach a mawr.

Argymhellir na ddylai'r tyllau fod yn fwy na 8mm.

Fel gyda phob tŷ, mae lleoliad yn bwysig. O'n profiad ni, gwestai sy'n wynebu'r de, mewn lle mor heulog â phosibl, heb fod yn rhy agos i'r llawr, sy'n gweithio orau.

Mwya'n y byd o wenyn y gwnewch chi eu denu, mwya deniadol y bydd y gwesty i anifeiliaid llwglyd. Fel yr ydym eisoes wedi sôn, mae brain yn broblem ond mae cnocellod yn gallu creu chwalfa hefyd trwy dyllu i'r boncyffion i gael gafael ar gynrhon.

O beth welwn, nid yw hyd y bambw na dyfnder y twll yn broblem i'r gwenyn, er ein bod yn anelu at ryw 14cm. Mae'r gwenyn yn ddigon galluog i fynd i ben draw'r twll a dodwy'r nifer priodol o wyau.

